Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Cyhoeddi rhaglen cynhadledd flynyddol WCVA

Mae'n gyfnod o newid mawr. Mae grwpiau'n wynebu toriadau mewn cyllid ac mae gwleidyddion a'r cyhoedd yn edrych yn fanylach o hyd ar eu gweithgareddau, ond eto efallai y bydd gofyn iddynt wneud mwy ar lai yn enw'r Gymdeithas Fawr. Bydd goroesiad nifer fawr o fudiadau'n dibynnu ar allu'r sector i addasu ac i arloesi yn yr hinsawdd gyfnewidiol sydd ohoni.

Diben cynhadledd flynyddol WCVA, *Wynebu'r realiti newydd*, yw helpu'r sector cyfan i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd i ddod, a chynnig cyngor ynghylch dulliau o oroesi ac edrych i'r dyfodol.

Bydd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn agor y gynhadledd gyda phrif anerchiad ac yna bydd y Fonesig Suzi Leather, cadeirydd y Comisiwn Elusennau, yn cyflwyno *Hen werthoedd, dyletswyddau newydd, her fawr*.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill fydd trafodaeth ar *Gyfleoedd mawr neu Ddiflastod mawr?,* ac amrywiaeth eang o sesiynau trafod.

Cynhelir y gynhadledd ar 2 Rhagfyr yng Ngwesty'r Mercure Holland House, Caerdydd. Ewch i www.wcva.org.uk am fanylion pellach.

Cael blas ar ddysgu am ddim

Gall mudiadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl ddi-waith ar raglenni cyflogaeth a sgiliau gysylltu eu gwaith yn awr â chyfleoedd addysgol a gynigir yn rhad ac am ddim gan y Brifysgol Agored.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn awyddus i ddatblygu partneriaethau cymunedol gyda mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol i gefnogi pobl ar fudd-daliadau ac incwm isel a'u harwain at addysg.

Dywedodd Gayle Hudson, Swyddog Datblygu gyda'r Brifysgol Agored, wrth WCVA: `Drwy ein Rhaglen Openings ceir amrywiaeth o gyrsiau sydd wedi'u datblygu'n arbennig ar gyfer y rheini sy'n newydd i astudio, y rheini sy'n dychwelyd i addysg neu bobl nad ydynt o bosib wedi ennill dim cymwysterau ffurfiol yn yr ysgol.

`Eu nod yw helpu pobl i gael blas ar bynciau, datblygu sgiliau dysgu a magu hyder. Maent yn llwybrau dilyniant delfrydol o ddysgu yn y gymuned i addysg fwy ffurfiol a gallent fod yn gamau datblygu delfrydol o brosiectau megis y Porth Ymgysylltu a'r Farchnad Lafur Drosiannol.

`Rydym yn awyddus i weithio gyda chymunedau lleol a mudiadau'r trydydd sector i helpu i ddatblygu sgiliau a dyheadau. Efallai y gallwn gynnig sesiynau gwybodaeth a sesiynau blasu am ddim hefyd.'

Mae cyrsiau Rhaglen Openings y Brifysgol Agored yn para am 20 wythnos ac yn dechrau pedair gwaith y flwyddyn ym mis Medi, mis Tachwedd, mis Mawrth a mis Mehefin.
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a√ Gayle Hudson (Gogledd a Chanolbarth Cymru) ar 01691 671648 a g.hudson@open.ac.uk neu Eleri Chilcott (De Cymru) ar 029 2026 2798 a r.e.chilcott@open.ac.uk. Neu ewch i www.open.ac.uk/openings.

Cyhoeddi cynllun grantiau bychan i feithrin gallu yn y trydydd sector

Mae'r Cyd-Gronfa Meithrin Gallu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gynllun grantiau bychan newydd wedi'i sefydlu i helpu i feithrin gallu yn y trydydd sector yng Nghymru.

Mae cyfanswm o £50,000 ar gael mewn grantiau, gyda phob taliad wedi'i gyfyngu i uchafswm o £5,000 i bob mudiad. Bydd y rhaglen yn ystyried ceisiadau gan rai sy'n dymuno gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol.

Bydd croeso arbennig i gynigion ar gyfer prosiectau a fydd yn cryfhau trefniadau llywodraethu mudiadau. Mae'n debyg y bydd y costau a fydd yn gymwys yn cynnwys: costau staff (cyflogau a gorbenion swyddfa); costau gwirfoddolwyr (teithio, cinio, treuliau a hyfforddiant); costau gweithredol / gweithgareddau (llogi adeilad neu gyfarpar, bwyd, lluniaeth, gofal plant); a chostau cyhoeddusrwydd (deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth a gwefannau).

Gall cyrff trydydd sector sydd wedi eu lleoli yng Nghymru ymgeisio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 17 Rhagfyr 2010. Ewch i http://wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy.

Cyfle newydd i gael gafael ar gyllid y Porth

Mae mudiadau o Fôn i Fynwy nawr yn cael cyfle arall i gael gafael ar gyllid gan brosiect Porth Ymgysylltu WCVA. Mae'r Porth yn buddsoddi mewn mudiadau sy'n cefnogi pobl dan anfantais ac economaidd anweithgar drwy ddatblygu eu sgiliau a'u hyder.

I fod yn gymwys i ennill contractau Porth rhwng £25,000 a £150,000 gall mudiadau nawr ymuno â rhestr cyflenwyr cymeradwy'r prosiect drwy anfon holiadur cyn-gymhwyso erbyn 2pm ar 24 Ionawr 2011.

Bydd mudiadau y mae eu holiadur cyn-gymhwyso yn diwallu'r meini prawf asesu'n gallu tendro ar gyfer contractau o fis Mawrth 2011 ymlaen.

Cynhelir sesiynau briffio ar sut mae llenwi holiadur cyn-gymhwyso ledled Cymru yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr. I gael rhagor o wybodaeth am brosiect Porth a dyddiadau sesiynau briffio'r holiadur cyn-gymhwyso, cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu anfonwch e-bost at help@wcva.org.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.